RhannuCeirCaerdydd.com

Cylchlythyr

Cyngor Caerdydd : Ffôn (029) 2087 3722

Haf 2009 Rhifyn 11

Croeso i gylchlythyr Haf RhannuCeirCaerdydd.com

Enillydd arolwg RhannuCeirCaerdydd!

O'r chwith Gail Bodley-Scott, Sue Proctor a Miriam Highgate.

"Mae'r Cynllun Rhannu Ceir yn fendith, yn enwedig yn ystod tymor yr ysgol pan y gall fod yn anodd dod o hyd i lefydd parcio yn ein prif faes parcio."
Sue, enillydd yr ipod.

Roedd ymateb cadarnhaol iawn i arolwg 2009 gyda bron i 150 o aelodau yn rhoi o'u hamser i ddarparu adborth. Roedd rhai o ganlyniadau'r arolwg yn ddiddorol iawn. Roedd dros hanner yr ymatebwyr yn rhannu ceir yn rheolaidd. Mannau parcio rhannu ceir dynodedig ac eisiau lleihau eu heffaith ar yr amgylchedd oedd y rhesymau mwyaf poblogaidd dros aelodau'n ymuno â'r cynllun.

Dywedodd dros 95% o ymatebwyr y byddent yn awgrymu rhannu ceir i eraill!

Aelod newydd i RhannuCeirCaerdydd!

Mae **RhannuCeirCaerdydd** yn falch iawn o gyflwyno ei haelod sefydliadol diweddaraf, Cymdeithas Tai Taf.
Mae Cymdeithas Tai Taf, sef y nawfed sefydliad i ymuno â **RhannuCeirCaerdydd** yn Gymdeithas Tai yn y gymuned sy'n cynnwys dros 1000 o dai yng Nghaerdydd yn ogystal ag ystod o brojectau tai arbenigol a gwasanaethau cymorth yn y gymuned yng Nghaerdydd, Y Fro a Chasnewydd. Mae grŵp Adfywio a Chynaladwyedd Taf wedi nodi lleihau defnyddio ceir gan staff o fewn pob project fel un o'i brif nodau ac yn gweld hyrwyddo rhannu ceir yn bwysig wrth gyflawni hyn.

Mae nifer o fentrau eraill hefyd yn cael eu cyflwyno gan gynnwys dau feic cwmni er mwyn galluogi staff i seiclo i ymweld â thenantiaid ac i gyfarfodydd; cynllun ad-dalu am feiciau; a chawodydd a loceri i'r staff eu defnyddio. Yn ogystal â chanolbwyntio ar leihau trafnidiaeth, mae'r grŵp Adfywio a Chynaladwyedd yn gweithio ar nifer o brojectau gwahanol, er enghraifft cyrraedd Dyfarniad lefel 2 y Ddraig Werdd; a darparu gweithdai effeithiolrwydd ynni i denantiaid. Mae'r Gymdeithas yn hyrwyddo'r Cynllun Rhannu Ceir drwy ofyn i staff gymryd rhan mewn diwrnod rhannu ceir

unwaith y mis, a fydd yn dangos i staff pa mor hawdd ydyw a beth yw'r buddion o rannu. Y gobaith yw y bydd hyn yn annog staff i barhau i rannu ar ôl y diwrnod rhannu ceir.

Newyddion UWIC

RhannuCeirUWIC

Mae'r cynllun rhannu ceir wedi mynd o nerth i nerth yn ystod y Flwyddyn Academaidd 2009/08 gyda 334 aelod o staff (95) a myfyrwyr (238) bellach wedi cofrestru ar www.rhannuceircaerdydd.com. UWIC felly yw'r ail weithredwr rhannu ceir mwyaf yn y de, yn ail i Gyngor Caerdydd. Mae 75 o grwpiau gweithredol yn bod sy'n cynnwys 53 o grwpiau myfyrwyr a 22 o grwpiau staff.

SeicloiUWIC

Cynhaliwyd trydydd cyfnod prynu dan Gynllun Seiclo i'r Gwaith y Llywodraeth ym mis Mai gyda chynnydd yn y cyfanswm gwariant ar gyfer pob gweithiwr i £1000. Mae 77 o weithwyr bellach wedi prynu beic sef 5.2% o'r holl staff. Ym mis Mehefin helpodd y Grŵp Defnyddwyr Beiciau i drefnu taith seiclo amser cinio o Gampws Llandaf i Gastell Coch ar hyd llwybr Taith Taf i gefnogi wythnos Iechyd a Lles UWIC. Roedd y digwyddiad yn gryn lwyddiant gydag 13 o seiclwyr yn cwblhau'r daith 45 munud i'r castell ac yn ôl. Trefnodd BUG Brawf Cyflwr Beiciau i fyfyrwyr a gweithwyr hefyd. Mae dau Feic Cwmni wedi cael eu prynu a lansiwyd cynllun yng Ngardd Howard gan Ysgol Celf a Dylunio Caerdydd. Cyflwynwyd hwn ar y cyd â hyfforddiant perthnasol a ddarperir gan Hyfforddiant Beicio Cymru er mwyn sicrhau y gallai staff deithio'n ddiogel ar feic. Mae Cynorthwy-ydd y Cynllun Teithio, Menna Hawkins, wedi ymgymryd â hyfforddiant seiclo hyfedr ac wedi cymhwyso i addysgu myfyrwyr a staff ar sut i seiclo'n ddiogel ar y ffordd. Mae rhaglen hyfforddiant hyfedredd seiclo wedi ei threfnu'n barod ar gyfer Blwyddyn Academaidd 2009/10. Bydd Menna yn cynnig cwrdd â staff yn eu cartrefi a seiclo gyda nhw i'w gweithle.

Bws UWIC

Mae cyfnod dilysrwydd y Bws wedi'i godi i 5 wythnos ychwanegol mewn ymateb i'r galw gan fyfyrwyr. Nawr bydd yn caniatáu defnyddio holl Fysus Caerdydd yng Nghaerdydd o 1 Medi 2009 tan 30 Mehefin 2010. O 14 Medi bydd staff UWIC yn gallu defnyddio'r Bws i deithio am ddim rhwng campysau ar faterion yn ymwneud â'u gwaith rhwng 9am a 5pm trwy ddangos eu cerdyn adnabod.

CerddediUWIC

Yn dilyn llwyddiant y brecwast BUG, mae'r cynllun wedi'i ehangu i wobrwyo yr aelodau staff sy'n dewis cerdded i'r ysgol gyda brecwast iach neu frecwast wedi'i goginio am ddim. Denodd yr ymgyrch hon 42 o gerddwyr. Mae pawb sy'n cymryd rhan yng nghynllun CerddediUWIC wedi cael pedomedr UWIC i helpu unigolion i gadw cofnod o'u cynnydd drwy gyfri'r camau a gymerwyd a faint o galorïau a losgwyd.

Newyddion Hyder

Bydd Hyder yn cynnal arolwg teithio staff cyn hir ac yn adolygu eu cynllun teithio.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Mae'r Cynulliad hefyd yn cynllunio arolwg teithio staff. Mae mwy a mwy o weithwyr yn achub ar y cyfle i seiclo i'r gwaith ac mae'r cynllun yn parhau i fynd o nerth i nerth. Mae'r posibilrwydd o gael darpariaeth car cwmni yn parhau i fynd yn ei flaen.

CBAC

Mae datblygiadau ar safle CBAC yn dal i fynd rhagddynt gyda cham cyntaf y maes parcio newydd bellach wedi'i gwblhau. Cyn cwblhau cam nesaf y maes parcio, bydd holiadur teithio yn cael ei amgylchynu a fydd yn cynnwys casgliad newydd o reoliadau i staff o ran parcio, gan roi mwy o bwyslais ar rannu ceir neu ddulliau eraill o drafnidiaeth. Anogir ymwelwyr i ddewis dull arall o deithio neu i rannu ceir. Ym mis Mehefin, lansiodd CBAC ei gynllun seiclo i'r gwaith "Cyclesolutions". Roedd llawer o ddiddordeb yn y cynllun. Manteisiodd wyth aelod o staff ar feiciau newydd ac mae cynlluniau i redeg y cynllun eto ym mis Tachwedd.

CMC

Ar 25 Mehefin, cynhaliodd Canolfan Mileniwm Cymru ei Diwrnod Beicio i'r Gwaith blynyddol. Diolch i gymorth gan Gyngor Chwaraeon Cymru, roedd Hyfforddiant Beicio Cymru wrth law i roi cyngor ar gymudo i'r gwaith ar feic a hefyd cynhaliwyd gweithdy Dr Beic i weithwyr y Ganolfan a sefydliadau preswyl i ddod â'u beiciau i gael eu gwirio a'u gwasanaethu. Trefnwyd y digwyddiad gan Grŵp Defnyddwyr Beiciau y Ganolfan a chynhaliwyd y digwyddiad i roi cymorth a chyngor am gymudo ar feic i oddeutu 1000 o bobl a gaiff eu cyflogi'n uniongyrchol gan y Ganolfan a'i hwyth o sefydliadau preswyl. Mae Sustrans wedi bod yn hapus iawn i weithio gyda Chanolfan y Mileniwm ar eu mentrau teithio actif dros y blynyddoedd diwethaf. Dywedodd Lee Waters, 'Mae eu gwaith i annog seiclo ymysg staff a grwpiau o drigolion yn y Ganolfan wedi bod yn wych, gyda'r cynnydd mewn cyfleusterau storio beiciau yn dangos gwir ymrwymiad i helpu pobl i deithio mewn modd cynaliadwy ac iach. Mae eu mentrau i gefnogi'r cyfleusterau hyn, gan gynnwys darparu gwersi seiclo a chynnal a chadw beiciau trwy Hyfforddiant Beicio Cymru wedi bod yn hynod lwyddiannus, fel y mae gwaith pwysig a pharhaus y Grŵp Defnyddwyr Beiciau.Edrychwn ymlaen at barhau i weithio gyda Chanolfan y Mileniwm, gan gynnwys cynlluniau i ddefnyddio'r Ganolfan fel enghraifft ar y wefan a chydweithio a monitro gwerthuso eu mentrau."

Newyddion Cyngor Caerdydd
Mae Cynllun Teithio ar gyfer Brindley Road a Bessemer Close wedi'u cymeradwyo yn dilyn ymgynghori â staff. Daeth Dr Beic i ymweld â Chyngor Caerdydd yn ystod Wythnos Beicio i gynnig gwiriad cyflwr beiciau am ddim. Roedd y digwyddiad yn boblogaidd iawn ymysg staff, gyda'r ddau 'Ddoctor' (peirianwyr beiciau o Hyfforddi Beicio Cymru) yn cael eu cadw'n brysur iawn.

Grantiau Dinas Trafnidiaeth Gynaliadwy

Fel rhan o'r fenter Dinas Trafnidiaeth Gynaliadwy, mae grantiau o hyd at £10,000 yn cael eu cynnig i helpu sefydliadau yng Nghaerdydd i ariannu mesurau sy'n cefnogi mentrau trafnidiaeth gynaliadwy ac yn help i ddatblygu a gweithredu eu Cynlluniau Teithio.

Gwneud Cais:
Mae llythyrau a phecynnau cais ar gael o www.keepingcardiffmoving.co.uk.
Mae'r Pecyn Cymorth Teithio Actif, a gaiff ei gynhyrchu gan Sustrans Cymru yn cynnwys gwybodaeth ddefnyddiol a syniadau am fentrau posib i'w hystyried wrth wneud cais am y grant. Gellir lawrlwytho'r Pecyn Cymorth o wefan Sustrans: www.sustrans.org.uk/what-we-do/active-travel/teithio-byw-cymru-active-travel-cymru

Dyddiadau cau:
Bydd tri chyfle i wneud cais am grant. Dyddiad cau'r rownd gyntaf ar gyfer gwneud cais fydd 30 Medi, yr ail fydd 30 Hydref a'r drydedd rownd fydd 30 Tachwedd.

Newyddion Dinas Teithio Cynaliadwy
Mae gwaith yn mynd yn ei flaen ar gyfer lansio cynllun 'Beic am Ddim' Caerdydd, yn dilyn penodi darparwr a enwebwyd. Bwriedir lansio'r cynllun yn yr hydref.

Poster Newydd

Ewch i wefan RhannuCeirCaerdydd i ddod o hyd i rannwr siwrnai newydd ar gyfer y flwyddyn ysgol newydd!

Gwybodaeth Ddefnyddiol:

Pecyn Cymorth Teithio Byw Sustrans Cymru:
www.sustrans.org.uk/what-we-do/active-travel/teithio-byw-cymru-active-travel-cymru
Cynlluniau Teithio:
www.caerdydd.gov.uk/cynlluniauteithio neu www.keepingcardiffmoving.co.uk
e-bost: travelplans@caerdydd.gov.uk